# PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PORTHMADOG, 16 MAWRTH, 2011

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Ieuan Roberts, (Cadeirydd)

Y Cynghorydd Alwyn Gruffydd, Cyngor Gwynedd), Y Cynghorydd Trevor Roberts (Pwyllgor Ymgynghorrol Harbwr Abermaw), Y Cynghorydd Gwyn Davies (Cyngor Tref Porthmadog), Dr. John J. Morris, (Buddiannau Hamdden) a Mr Peter Lunt Williams (Sefydliad y Bad Achub),

**HEFYD YN BRESENNOL:** Barry Davies (Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig), Ken Fitzpatrick, (Swyddog Morwrol Cynorthwyol Harbyrau) a David O'Neill (Harbwr Feistr) ac Ioan Hughes, (Swyddog Pwyllgor)

1. **YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr Dyfed Edwards**,** (Cadeirydd Bwrdd y Cyngor), Selwyn Griffiths, (Cyngor Gwynedd), Mr Robert Owen, (Buddiannau Masnachol), Mr David Eastwood, (Buddiannau'r Harbwr).

**PROFEDIGAETH:** Cyfeiriodd y Cadeirydd at y brofedigaeth a ddaeth i ran Mr Derek Griffith, aelod o weithlu'r Uned Forwrol a Pharciau Gwledig. a chydymdeimlodd ag ef yn ei golled.

4. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

5. **COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 22 Medi, 2010, fel rhai cywir.

6. **ADRODDIAD Y GWASANAETH MORWROL**

Cyflwynwyd adroddiad y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig gyda sylw penodol yn cael ei i'r materion canlynol:

- Ffioedd a Thaliadau
- Cyllidebau
- Mordwyo-Angorfeydd
- Staff
- Datblygiadau'r Clwb Hwylio

**Ffioedd a Thaliadau**

Cyfeiriwyd at strwythur codi tâl newydd sydd wedi ei gyflwyno, ac adroddodd y swyddog y bydd ffioedd a thaliadau'r harbwr ar gyfer pob llestr sy'n angori o fewn awdurdod Porthmadog yn amrywio. Daethpwyd i'r casgliad fod y drefn flaenorol o godi un ffi yn annheg.

Ar y cyfan, bydd cynnydd o 1% yn y ffioedd. Yn ogystal bydd y cynnydd mewn TAW i 20% yn achosi cynnydd pellach yng nghostau'r defnyddwyr, ond nodwyd na fydd hyn yn cyfrannu at incwm cyffredinol yr harbwr.

Mae'r Uned Forwrol eisoes wedi gohebu gyda'r cleientiaid gan bwysleisio fod y ffioedd yn amodol ar gael eu cadarnhau a'u cymeradwyo'n derfynol. Dychwelwyd tua 100 o ffurflenni a nododd y Swyddog fod y nifer yn siomedig.

Ychwanegodd fod yna sawl rheswm dros yr ymateb siomedig, megis effaith y dirwasgiad a chost tanwydd, ac na ddylid meddwl mai'r cynnydd yn y ffioedd oedd yn bennaf gyfrifol. Fodd bynnag, nododd y byddai'n rhaid cadw golwg ar y sefyllfa.

Ar y cyfan, ni fydd cynnydd yn y targed incwm yn ar gyfer Harbwr Porthmadog, ac felly, nododd y swyddog mai 'r targed incwm fydd £75, 390.

Ychwanegodd mai'r cynnydd yn y targed incwm cyffredinol i'r Uned Forwrol am 2011/12 yw £57,330. Pwysleisiodd y Swyddog y bydd y cyfanswm yn £2,219,360 a bod hyn yn hynod heriol ond bod yn rhaid i'r Uned fod yn gystadleuol.

Yn sgil hyn, cyfeiriodd am y tâl dyddiol o £4 sy'n cael ei godi ym Morfa Bychan, a chredai fod hyn yn sicrhau gwerth am arian i'r cwsmeriaid.

Mynegwyd pryder gan aelod ynglŷn â'r effaith a allasai costau ychwanegol ei gael ar gychwyr lleol. Ychwanegodd fod angorfeydd yn prinhau a bod costau angori ar ochr y Cei yn agos i £500 a bod pwysau cynyddol yn cael ei roi ar gychwyr lleol.

Ategwyd hyn gan aelod arall a oedd yn awyddus i weld cynnydd yn y ganran o gychwyr lleol sy'n defnyddio Harbwr Porthmadog.

Mewn ymateb, dywedodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ei fod yn awyddus i weld mwy o'r gymuned leol yn manteisio ar yr harbwr. Ychwanegodd y byddai'r Uned yn barod i drafod y sefyllfa gyda'r cychwyr lleol a byddai modd cael angorfeydd rhywle o fewn yr harbwr er nad oes sicrwydd y byddai'r rhain yn y mannau gorau. Pwysleisiodd y byddai'r Harbwr Feistr yn barod i drafod y sefyllfa hefo'r cychwyr a'r cynghorwyr.

**Cyllidebau**

Cyflwynwyd gwybodaeth i'r aelodau parthed sefyllfa ariannol Harbwr Porthmadog a Harbwr Pwllheli ynghyd â chyllideb gyffredinol traethau, sy'n cynnwys Morfa Bychan, o drydydd chwarter y flwyddyn ariannol hon hyd at 31 Rhagfyr 2010.

Nodwyd mai £75,190 oedd y targed incwm ar gyfer harbwr Porthmadog am 2010/11 a hyd at ddiwedd Rhagfyr 2010 llwyddwyd i gynhyrchu £71,281 o'i gymharu â chasglu £74,856 mewn incwm yn ystod yr un cyfnod y llynedd.

Ni ragwelir y gellir cynhyrchu incwm sylweddol yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth, ac felly rhagwelir diffyg o £3,900 yn yr incwm ar gyfer Harbwr Porthmadog hyd at 31 Mawrth 2010.

Ychwanegodd y swyddog y rhagwelir gwariant ychwanegol yn ystod mis Mawrth ac mae'r dangosyddion ariannol allweddol ar gyfer y chwarter olaf yn rhagweld tanwariant o £1,500 yng nghyllideb yr harbwr erbyn diwedd mis Mawrth. Esboniodd y bydd y cyfanswm gwariant cyffredinol wedi cymryd cyfanswm y targed incwm i ystyriaeth. Pwysleisiodd y swyddog fod y fath orwariant a diffyg yn yr adenillion yn rhoi baich ariannol annerbyniol ar yr Awdurdod.

O ystyried yr hinsawdd economaidd bresennol a'r gofyn i adnabod rhagor o arbedion nododd y swyddog fod yr Uned Forwrol yn wynebu amser heriol, a bod hyn yn amlwg o safbwynt harbyrau sy'n methu â chyfarfod y targedau incwm a'r targedau gwariant.

Pwysleisiodd y bydd yn rhaid goresgyn gorwariant a'r diffyg mewn incwm yn enwedig o gofio'r gostyngiad cyffredinol yn y gyllideb sydd ar gael i'r Cyngor a'r arbedion sydd angen eu hadnabod yn y dyfodol.

O safbwynt y traethau nodwyd fod 50% o gyfanswm yr incwm yn dod o Forfa Bychan. Nodwyd fod hyn yn tanlinellu pwysigrwydd y traeth ac ychwanegodd y swyddog fod cais wedi ei wneud am grant o 42% i adeiladu toiled newydd ar gyfer y traeth ac y byddai hyn yn cyfrannu ymhellach at safon yr adnoddau yno.

**Mordwyo-angorfeydd**

Arhosodd y mwyafrif o gymhorthion mordwyo sy'n arwain at Harbwr Porthmadog yn eu lle yn ystod gaeaf 2010/11. Nododd y swyddog fod y system bellach mewn trefn, ac ar adegau pan mae cymhorthion mordwyo'n symud, maent yn cael eu hail-osod yn fuan.

Fodd bynnag, mae'n ymddangos fod newidiadau yn agos at leoliad cymhorthydd rhif 5 gyda'r sianel yn yr ardal yma wedi lledu'n sylweddol. Yn sgil hyn, gwelwyd lleihad yn nyfnder y sianel ac mae'r Uned Forwrol wedi cynghori morwyr i fod yn ofalus wrth fordwyo yn yr ardal hon.

Cadarnhawyd y bydd pob cymhorthydd mordwyo yn Harbwr Porthmadog wedi derbyn sylw ac yn ei safle cywir cyn y Pasg.

'Roedd yn arbennig o galonogol i'r Swyddog allu datgan fod y llusernau mordwyo sy'n rhoi arweiniad ychwanegol i forwyr yn ystod misoedd y Gaeaf, wedi parhau i weithio. Nododd ymhellach fod llwyddiant y llusernau'n cael ei danlinellu gan y ffaith mai'r bwriad gwreiddiol oedd eu defnyddio ar sail dymhorol.

Ymgorfforwyd llusernau ychwanegol i'r system yn 2010, ond nid oedd y swyddog yn rhagweld y gellid ei gwella ymhellach.

Cyflwynwyd gwybodaeth i'r aelodau parthed y gwaith a'r costau ynglŷn ag archwilio a chynnal holl angorfeydd yn yr harbwr.

Bydd yr holl angorfeydd a leolir ar flaendraeth Borth y Gest yn cael eu harchwilio gan yr Harbwr Feistr, ac fel yn 2010 ni fydd angen symud unrhyw un o'r angorfeydd ar y blaendraeth cyn dechrau'r tymor gwyliau.

**Staff**

Cadarnhawyd y bydd swyddi o Gymhorthydd Harbyrau ym Mhwllheli, Porthmadog ac Abermaw yn rhedeg rhwng 7 Ebrill a 30 Medi. Yn ogystal, bydd nifer o swyddogion traeth yn cael eu cyflogi yn ystod tymor yr haf i reoli Morfa Bychan a byddant yn dechrau ar eu dyletswyddau ar 7 Ebrill. Bydd adnoddau ychwanegol ar y traeth yn ystod cyfnod prysuraf dymor yr haf.

Diolchodd y swyddog i'r holl weithwyr am eu gwaith ac yr oedd yn annog yr aelodau i barhau mewn cysylltiad agos hefo'r gweithlu.

**Datblygiadau'r Clwb Hwylio**

Cyflwynodd y swyddog wybodaeth parthed y gwaith ymgynghorol a wnaed mewn cysylltiad â datblygiadau'r Clwb Hwylio.

'Roedd y Pwyllgor Ymgynghorol hwn eisoes wedi cefnogi'r egwyddor o ymestyn y cyfleuster pontŵn ar gyfer angorfeydd yn harbwr Porthmadog.

Bu Tŷ'r Drindod ac Uned Caniatadau Morwrol Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhan o'r ymgynghoriad. Yn ddiweddarach cefnogwyd y cais gan Bwyllgor Ardal Dwyfor a bellach cwblhawyd y datblygiad.

Adroddodd y swyddog fod y gwaith wedi ei gwblhau'n llwyddiannus ac nad oedd y cyfleuster pontŵn yn amharu ar angorfeydd eraill na'r llithrfa.

Diolchodd y swyddog i'r Clwb Hwylio am eu cydweithrediad, ac mewn ymateb nododd Dr John J. Morris, (Cynrychiolydd Buddiannau Hamdden), fod y cymorth a chydweithrediad gweithwyr yr harbwr wedi sicrhau fod y gwaith wedi ei gwblhau yn ddidrafferth.

Mynegwyd peth pryder oherwydd bod rhan o'r wal ger Llyn Bach wedi dymchwel ac yn effeithio ar lif y dŵr i'r harbwr. Cadarnhaodd y swyddog y byddai'n ymchwilio i'r mater.

**Cricieth**

Adroddodd cynrychiolydd Sefydliad y Bad Achub, Mr Peter Lunt Williams, er gwybodaeth, y cafwyd cadarnhad fod Gorsaf Bad Achub Cricieth am gael Cwch Achub y Glannau.

Adeiladwyd y cwch yn Seland Newydd a chafwyd yr arian o ewyllys lleol. Pwysleisiodd Mr Williams fod y gefnogaeth yma o werth neilltuol. Ychwanegodd mai'r cam nesaf fydd cael lle addas i gadw'r cwch a bod disgwyl i'r gwasanaeth fod yn weithredol erbyn dechrau'r prif dymor gwyliau.

Nododd ymhellach fod bad achub Cricieth wedi ei alw allan 53 o weithiau'r llynedd a'u bod wedi achub 15 o bobl a fyddai wedi boddi oni bai am y gwasanaeth.

Llongyfarchwyd criw Gorsaf Cricieth am y gwasanaeth a chroesawyd y wybodaeth parthed y cwch achub newydd.

Dechreuodd y cyfarfod am 6pm a daeth i ben am 6:55 pm